

Rhif 370 Barddoniaeth B18 – Tywydd Garw

Beirniad – Gwynfor Evans

Pleser oedd darllen pob un o'r cerddi a llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion am eu cyfraniadau a diolch i'r athrawon a'r ysgolion am gefnogi'r gystadleuaeth.

Nid yn annisgwyl, efallai, y gwynt, y glaw a stormydd oedd y brif thema yn y cerddi a ddaeth i law. Dyna a gawn gan Afal, Anifail, Drych, Golffiwr, Merch y Poster a Mistar T, pob un ohonynt yn rhoi darlun creadwyl o dywydd garw. Her y tywydd garw i'r ffermwyr a gawn gan Dwynwen a cheir cyffyrddiadau da gan Jaci Soch, Caws Cymreig, Joc, Angel a Carlam. Ar ôl disgrifio'r storm, mae Nelson yn methu penderfynu ai mentro cofleidio'r storm a wna neu guddio rhagddi. Mae Superted yn dehongli'r storm fel Dicter y Duwiau ac mae Dianc 123 a Pili Pala yn hapus i gael lloches a chysgod rhag y storm. Mae Cymraes, Cymraes 360 a Ceri Camu yn darlunio effeithiau'r storm ar y wlad o'n cwmpas ac mae Siani yn cofnodi effeithiau'r corwyntoedd yn y Caribi a'r sychder yn California.

Y tywydd o'n cwmpas a gawn gan Elin 34 ac mae Ar fy Meic yn breuddwydio am dywydd gwell. Sôn am y corwyntoedd Ophelia, Brian a Doris gawn gan Heti. Cawn ddarlun byw o'r tywydd garw gan Betws Bledrws ac o fisoedd y gaeaf gan Casi. Mae cyffyrddiadau da gan Meg 1 wrth ddisgrifio'r tawelwch cyn dyfodiad y storm. Dyna'r darlun a gawn hefyd gan Llwy. Er y dinistr a ddaw gyda thywydd garw, mae Heulwen yn gweld y 'daw da o bob drwg'. Mae Panda Coch, Nefyn, Owain Glyndwr, Jac y Jwc a Dwynwen yn llwyddo i roi darlun byw iawn i ni o dywydd garw. Cofnodi'r profiad erchyll o fynd ar wyliau tramor a gorfod wynebu Swnami y mae Nel.

Mae'r cerddi canlynol yn rhoi dehongliad gwahanol o dywydd garw ac mae cyffyrddiadau canmoladwy ym mhob un ohonynt. Daeth amryw ohonynt yn agos i'r brig. Cyfeirio at effeithiau cynhesu byd eang ar y tywydd a gawn gan Gruff a sôn am y storm a wynebodd yr iath Gymraeg dros y blynyddoedd mae Gweilch. Ymbil am heddwch rhag y rhagfarnau yn ein byd mae Llannerch. Gwaith cartref yw tywydd garw Siôn Corn. Cawn ddarlun da o dad pan mae'n flin gan Lili Fach Wen. Annerch y gwynt y mae Unrhywbeth gan ofyn 'Pam wyt mor flin?' Stormydd bywyd personol a geir gan Rona a Cenhinen Pedr 123. Profiadau Paul Pugh ddeng mlynedd ar ôl yr ymosodiad arno sydd gan Storm y Ddraig. Tywydd garw o fewn teulu gawn gan Lleucu Llwyd; arwyr y badau achub a glodforir gan Santampa wrth iddynt frwydro yn erbyn y tywydd garw ar y môr. Y tywydd garw sy'n gysylliedig ag erchyllderau rhyfel mewn cerdd addawol gan Wishi Washi.